**Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal EOC 08-02(p4)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 12 Rhagfyr 2002 |
| **Amser:** | 9.00am |
| Lleoliad: | Ystafell Pwyllgor 3 & 4 |
| **Teitl:** | Apwyntiadau Cyhoeddus A Siaradwyr Cymraeg |

**APWYNTIADAU CYHOEDDUS A SIARADWYR CYMRAEG**

**Mae'r papur hwn yn rhan o gyflwyniad Bwrdd yr Iaith Gymraeg i Bwyllgor Cyfle Cyfartal y Cynulliad ar 12 Rhagfyr, 2002**.

**Amcan y papur**

1. Amcan y papur yw ateb cais y Cynulliad am gyngor yngl•n â sut i geisio sicrhau fod siaradwyr Cymraeg yn cael eu cynrychioli'n briodol ar fyrddau a chyrff llywodraethol yn gyffredinol, a chyrff sector iechyd yn benodol.

**Cyd-destun**

2. Yn ei gyfarfod ar 6 Mawrth 2002, o dan Eitem 2, trafododd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal faterion yn codi o'r "Adolygiad o'r Iaith Gymraeg" – adolygiad sydd bellach wedi ei gwblhau. Un o bwyntiau'r Pwyllgor oedd:

*"Er mwyn darparu gwasanaethau cyhoeddus effeithiol, dylai byrddau Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (ASPBs) fod yn gynrychioliadol o'r cymunedau a wasanaethir ganddynt. Felly dylid cynrychioli siaradwyr Cymraeg ar fyrddau a dylai gweithdrefnau penodiadau cyhoeddus ystyried hyn. Gofynnodd y Cadeirydd am nodyn ar nifer aelodau byrddau ASPBs sy'n siarad Cymraeg wedi'i fynegi yn nhermau'r rhanbarth a wasanaethir gan yr ASPB."*

3. Yn yr un cyfarfod, , dan Eitem 3, trafododd y Pwyllgor, dan Eitem 3 y Cod Ymarfer ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus, gan dynnu sylw at yr angen i sicrhau fod prosesau apwyntio a hyfforddi aseswyr, yn ogystal â'r Cod ei hunan, yn adlewyrchu egwyddorion cydraddoldeb y Cynulliad.

4. Hefyd, dan Eitem 4, trafododd y Pwyllgor y Cynllun Gweithredu Amrywiaeth, sef cynllun i annog mwy o amrywiaeth cefndir a phrofiad ymhlith penodeion cyhoeddus. Cyfeiriwyd at gyfraniad pwysig gwaith "Allgyrch" y Cynulliad yn hyn o beth i annog ymgeiswyr o bob sector o'r gymuned. Mae'r Cynllun Gweithredu Amrywiaeth yn talu sylw i gyngor y Fonesig Rennie Fritchie, y Comisiynydd

Penodiadau Cyhoeddus. Cytunodd y Pwyllgor y dylid ail enwi'r cynllun gweithredu hwn yn "Prif Ffrydio Cydraddoldeb mewn Penodiadau Cyhoeddus".

**Cyngor y Bwrdd**

5. Ym marn y Bwrdd, y ffordd orau i wireddu dymuniad y Pwyllgor i weld siaradwyr Cymraeg yn cael eu cynrychioli'n briodol mewn penodiadau cyhoeddus yw prif ffrydio'r dimensiwn ieithyddol i gydraddoldeb yn ddatganiedig o fewn y Cod Ymarfer ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus, y Cynllun Prif Ffrydio Cydraddoldeb mewn Penodiadau Cyhoeddus, a'r holl gamau a gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â hwy. Byddai hyn, hefyd, yn gyson â dyletswydd y Cynulliad dan Adran 120 Deddf Llywodraeth i Gymru i sicrhau fod ei swyddogaethau yn cael eu gweithredu gan dalu sylw priodol i'r egwyddor y dylai fod cyfle cyfartal i'r holl drigolion.

6. Byddai hyn hefyd yn gyson â Chynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth y Cynulliad sy'n dweud [Rhan B, adran 3.7]:

*"Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi mabwysiadu Cod Ymarfer ar Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru, yn unol â'r egwyddorion a'r canllawiau a gyhoeddwyd gan y Comisiynydd dros Benodiadau Cyhoeddus. Mae'r egwyddor holl bwysig o ddethol ar sail haeddiant yn sail i bob penodiad cyhoeddus.*

*Bydd y gallu i siarad Cymraeg yn ystyriaeth wrth benodi unigolion i rai sefydliadau – e.e. i Fwrdd yr Iaith Gymraeg a Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Yn fwy cyffredin, gall yr angen i sefydliadau ddarparu gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg olygu ei bod yn briodol cynnwys y gallu i siarad Cymraeg o fewn y Bwrdd yn un o anghenion sgiliau'r tîm.*

*Bydd yr angen am gynrychiolaeth o siaradwyr Cymraeg, fel yr angen am gynrychiolaeth o bob rhan o'r gymuned sy'n cael eu gwasanaethu gan gorff arbennig, hefyd yn cael ei ystyried. Yn aml iawn mae mwy o ymgeiswyr yn bodloni'r meini prawf a dethol na'r nifer o swyddi sydd ar gael. Mae hyn yn rhoi cyfle i baneli penodi wneud argymhellion i Weinidogion ar gydbwyso Byrddau. Ymhlith y materion i'w hystyried yn y cyd-destun hwn y mae rhyw, ethnigrwydd, lleoliad daearyddol a phroffil ieithyddol.*

*Mae gweithdrefnau presennol yn caniatau ar gyfer yr uchod, ond byddwn yn llunio canllawiau a fydd yn darparu cyfrwng ar gyfer rhoi ystyriaeth wrthrychol i'r materion hyn."*

7. Er mwyn gwireddu'r amcanion hyn yn effeithiol, a sicrhau bod y neges yn glir o fewn a thu allan i'r Cynulliad, argymhellwn hefyd y dylid cymryd y camau ychwanegol canlynol:

i. mabwysiadu'r dimensiwn ieithyddol yn ffurfiol fel rhan o agenda hyrwyddo cydraddoldeb y Cynulliad dan Adran 120 Deddf Llywodraeth i Gymru, a gwneud hynny'n hysbys;
ii. mabwysiadu'r arfer sefydlog bod 'iaith' yn cael ei restru a'i drafod gyda hil, rhyw, anabledd, oedran a dimensiynau cydraddoldeb eraill mewn papurau, canllawiau, ac mewn rhaglenni hyfforddi;

iii. sefydlu trefn, bod y proffil sgiliau a rhinweddau sy'n cael ei greu i arwain penodiadau i gyrff cyhoeddus unigol, yn cynnwys y proffil ieithyddol y mae'r aseswyr yn chwilio amdano;
iv. fel rhan o'r drefn i fonitro cydraddoldeb mewn penodiadau cyhoeddus, cadw cofnod o broffil ieithyddol yr ymgeiswyr, a'r rhai a benodir, er mwyn galluogi'r Cynulliad i gadw gorolwg dros y sefyllfa, yn unol â'i ddyletswydd o dan Adran 120 Deddf Llywodraeth i Gymru;
v. tynnu sylw mewn llythyrau penodi cadeiryddion ac aseswyr at y cyfrifoldeb i barchu a hyrwyddo cydraddoldeb, gan gynnwys cydraddoldeb ieithyddol, wrth benodi i'r corff dan sylw;

8. Nid yw cael cydbwysedd ieithyddol priodol ar Fyrddau wrth gwrs yn ei hunan yn mynd i olygu bod gwasanaeth Cymraeg unrhyw gorff yn dda. [Mae'r gwrthwyneb hefyd yr un mor wir.] Ond fe all gyfrannu at well dealltwriaeth o anghenion cymunedau ac unigolion Cymraeg, a sicrhau bod gan y corff berson(au) ar ei Fwrdd sy'n gallu cyfathrebu'n uniongyrchol â'r cyhoedd yn Gymraeg.

**Cyrff Iechyd**

9. Tynnwyd sylw'r Bwrdd yn benodol at brinder siaradwyr Cymraeg ar fyrddau rhai cyrff iechyd. Mae'r Bwrdd yn rhannu pryder y Pwyllgor yngl•n â hyn, yn enwedig pan fo'n gwaith monitro yn dangos nad yw'r cyrff hyn yn cymryd eu cyfrifoldeb i ddarparu gwasanaeth yn Gymraeg yn ddigon o ddifrif. Mae'r Gweinidog, Jane Hutt, yn ymwybodol o'n pryderon, ac yn cymryd camau penodol i geisio gwella'r sefyllfa.

10. O ran penodiadau cyhoeddus yn y sector iechyd, ein cyngor yw y dylai'r Gweinidog ddilyn y camau a nodir yn 7(iii) uchod [creu proffil sgiliau a rhinweddau] wrth ail benodi i Fyrddau, gan anelu at well cydbwysedd ieithyddol.

11. Nid ydym o'r farn, fodd bynnag, y dylid mabwysiadu trefn gwota yn y sector iechyd, nac yn unrhyw sector arall. Credwn, fel y Cynulliad, mai trwy fynd ati o ddifrif ac yn fwriadol i geisio cyrraedd at ac annog ymgeiswyr dwyieithog da y mae'r ateb. Yn y sector iechyd, mae'n bosib fod angen ymgyrch benodol i ddenu siaradwyr Cymraeg cymwys i ymgeisio.

12. Byddai o gymorth inni weld y canllawiau sydd i'w rhoi dan adran 3.7 Cynllun Iaith Llywodraeth y Cynulliad, cyn iddynt gael eu cyflwyno.

13. Rydym yn gobeithio fod y papur hwn o gymorth, ac wrth gwrs yn barod iawn i drafod ein cyngor ymhellach gyda'r Pwyllgor a swyddogion.

**405/4 Rhagfyr 2002**

**Bwrdd yr Iaith Gymraeg**